

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 9 Medi 2016 am 9.30 am

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Bill Cowie, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Martyn Holland, Rhys Hughes (Is-Gadeirydd), Cefyn Williams a/ac Cheryl Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Councillors Raymond Bartley, Hugh Evans (Arweinydd), Hugh Carson Irving (Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd), David Smith (Aelod Arweiniol dros Barth y Cyhoedd) and Eryl Williams (Aelod Arweiniol dros Addysg).

Rebecca Maxwell (Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol), Nicola Stubbins (Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau), Karen I Evans (Pennaeth Addysg), Graham Boase (Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Keith Amos (Rheolwr - Swyddfa Rhaglenni Corfforaethol), Geraint Davies (Prif Swyddog Cymorth Addysg), Rhian Evans (Cydllynydd Archwilio), Mike Jones (Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd), Ian Land (Education, Planning and Resource Manager), Julian Molloy (Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion), Marc Musgrave (Peiriannydd Diogelwch ar y Ffyrdd), Vicki Roberts (Rheolwraig Tîm Cynllunio Strategol) and Wayne Wheatley (Gweithiwr Cymdeithasol Addysg - Arweinydd Tim).

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Bob Murray, Anton Sampson, David Simmons a'r Aelodau Cyfetholedig Debra Houghton a Gareth Williams

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Cyflwynwyd datganiadau o gysylltiad personol yn seiliedig ar eu rôl fel llywodraethwyr ysgol gan y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Rhys Hughes, Cefyn Williams a Cheryl Williams ar gyfer eitemau 7 ac 8.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 30 Mehefin, 2016:-

PENDERFYNWYD – y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.

5 DARPARIAETH YR ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU/PEOPLE PLUS YN SIR DDINBYCH

Ymddiheurodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) cyn y cyfarfod nad oedd ganddynt uwch swyddog ar gael ar y diwrnod i fynd i gyfarfod y Pwyllgor ar gyfer y drafodaeth. Fodd bynnag, roeddent wedi anfon llythyr yn amlinellu cefndir contract y Rhaglen Waith (RhW), y newidiadau diweddar, sicrwydd bod pob cwsmer y RhW yn derbyn yr un lefel o wasanaeth, a gwybodaeth am ddatblygiad y Rhaglen Gwaith ac lechyd sydd i ddod.

Roedd PeoplePlus, yr asiantaeth a gontractiwyd i ddarparu'r RhW ar ran y DWP, i fod i anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod i drafod y penderfyniad i adleoli gwasanaethau DWP o'r Rhyl i'r Fflint gyda'r Pwyllgor. Yn anffodus, nid oedd unrhyw gynrychiolwyr yn bresennol. Cofrestrodd y Pwyllgor ei siom nad oedd cynrychiolwyr yn bresennol ac o ganlyniad:

Penderfynwyd:

- (i) *ysgrifennu at yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a PeoplePlus, i'w gwahodd i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 27 Hydref, 2016 at ddiben trafod y penderfyniad o adleoli gwasanaethau o'r Rhyl i'r Fflint; a*
- (ii) *thrafod datblygiad y Rhaglen Gwaith ac lechyd newydd gyda DWP, yn ogystal â chyfleoedd posibl i'r Cyngor weithio gyda DWP, gyda'r nod o wella canlyniadau i drigolion, gan leihau tlodi a nifer y bobl ifanc sy'n dod yn NEET, a chyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol a Lles.*

6 AROLWG PRESWYLWYR

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn hysbysu'r Pwyllgor o ganfyddiadau allweddol yr Arolwg Trigolion, a rhoddodd gyfle iddynt roi sylwadau ar y canlyniadau.

Esboniodd yr Aelod Arweiniol fod yr arolwg wedi'i ddarparu'n allanol i ymgynghorwyr yn 2011, ac er bod yr ymateb yn wych, roedd wedi costio £25000 i'r Awdurdod. Yn dilyn hynny yn 2013, roedd yr arolwg wedi'i ddosbarthu gyda Llais y Sir, roedd hyn yn llai costus ond cafwyd llai o ymatebion. Cafodd yr arolwg diweddaraf a gynhaliwyd yn 2015 ei ddosbarthu yn electronig, a arweiniodd at ddim ond 711 o ymatebion - llai na maint y sampl a fwriadwyd o 1000. Er bod gwasanaethau wedi bod yn defnyddio'r wybodaeth a gynhwysir yn yr arolwg, roedd rhywfaint gyda pheth amheuaeth.

Yn absenoldeb awdur yr adroddiad, bu i'r Rheolwr – Swyddfa'r Rhaglen Gorfforaethol, roi manylion dadansoddiad canlyniadau'r arolwg. Dywedodd y swyddogion:

- bu cyfradd ymateb i'r arolwg yn siomedig o isel. Yn ôl pob tebyg, roedd hyn oherwydd bod yr ymarfer wedi ei gynnal yn electronig (ar wahân i'r rhai a gwblhawyd gan ysgolion) gyda'r bwriad o leihau costau;

- roedd yn bwysig cofio bod canlyniadau'r arolwg yn mesur canfyddiadau pobl o'r Cyngor, a all ar adegau wrth-ddweud data a ddilyswyd ar berfformiad y Cyngor; ac
- nid oedd yr holl ymatebwyr wedi ateb pob cwestiwn, roedd unigolion yn tueddu i ateb cwestiynau mewn perthynas â meysydd a oedd fwyaf perthnasol i'w hamgylchiadau personol.

Wrth ymateb i gwestiynau ac arsylwadau'r swyddogion, bu i swyddogion wneud y canlynol:

- cydnabod nad oedd cyfyngu'r arolwg i holiadur electronig wedi cyflawni'r canlyniad a ddymunir. Serch hynny, mae'r wybodaeth a gafwyd o'r ymatebion wedi darparu gwybodaeth werthfawr i'r Cyngor a fyddai'n helpu i gynllunio a gwella'r gwasanaethau a ddarperir;
- dweud na fyddai'r arolwg nesaf, sydd i fod i'w gynnal yn ystod 2017, yn cael ei wneud drwy ddulliau electronig yn unig, ac y byddai dulliau eraill hefyd yn cael eu defnyddio er mwyn ei wneud yn hawdd i'r holl drigolion;
- cytuno mai cynnwys ac ansawdd y cwestiynau a ofynnwyd oedd o'r pwys mwyaf;
- amlygu pwysigrwydd cydnabod bod y canlyniadau'n mesur canfyddiadau pobl a allai ymddangos yn groes i ddangosyddion perfformiad yr Awdurdod
- dweud bod y Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata yn edrych ar ddewisiadau ar gyfer System newydd Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ar hyn o bryd, a fyddai'n diwallu y rhan fwyaf o anghenion y Cyngor;
- trafod gyda'r swyddogion perthnasol pam na fyddai'r ymarfer 'Sgwrs y Sir' sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cynnal digwyddiad cyhoeddus yn y Rhyl, ac archwilio a ellid trefnu un ar gyfer y dref; ac
- amlinellu'r broses a fyddai'n dilyn ymlaen o ymarfer 'Sgwrs y Sir' at ddiben penderfynu ar flaenoriaethau corfforaethol a Chynllun Corfforaethol 'newydd' y Cyngor.

Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd y Cyngor yn defnyddio'r holl offer sydd ar gael ar ei gyfer, er mwyn ceisio barn trigolion ar faterion, e.e. cynghorwyr sir, grwpiau trigolion ac ati, gan ei bod yn bosibl iddynt estyn allan at wahanol sectorau o'r gymuned a gofyn am eu barn. Gall caniatáu i breswylwyr alw i mewn i swyddfeydd dinesig ac ati i lenwi holiaduron ac ati hefyd helpu i wella rhyngweithio cyhoeddus gydag arolygon yn y dyfodol.

Cytunodd y Pwyllgor fod cynllunio gofalus yn gwella ymarferion megis arolygon trigolion yn fawr - er mwyn iddynt fod yn effeithiol, roedd yn bwysig i'r trefnydd bennu beth mae'r sefydliad angen ei wybod, pam oedd angen iddynt ei wybod ac i ba bwrpas y byddai'r wybodaeth a dderbyniwyd yn cael ei defnyddio.

Awgrymodd yr Arweinydd, gan y byddai tymor y Cyngor presennol yn dod i ben ym mis Mai 2017, efallai y byddai'n ddefnyddiol i bob cynghorydd gael eu cyfweled cyn yr etholiad (proses debyg i gyfweiliadau 'ymadael' a gynigir i staff) i geisio eu barn ar ba feysydd y maent yn teimlo sy'n gweithio'n dda, pa feysydd sydd angen eu gwella, a cheisio unrhyw syniadau sydd ganddynt ar gyfer gwella yn y dyfodol. Ar ddiwedd y drafodaeth:

Penderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod -

(i) bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn gynnar yn 2017 yn amlinellu cynnwys a chwestiynau y bwriedir eu cynnwys yn Arolwg Preswylwyr 2017, ynghyd â'r fethodoleg(au) dan ystyriaeth ar gyfer ymgymryd â'r arolwg; a'r

(ii) Arweinydd i gynnal trafodaeth gydag Arweinwyr grŵp i drafod ymarferoldeb cynnal cyfweiliadau 'arddull ymadael' gyda chynghorwyr sir cyn etholiadau awdurdodau lleol y flwyddyn nesaf, er mwyn gofyn am eu barn ar yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud yn dda a pha feysydd sydd angen eu gwella

7 ABSENOLIAETH YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD

Cyflwynodd Arweinydd Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg yr adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn manylu ar eu cynnwys. Eglurodd y gwahaniaeth rhwng absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig a'r broses a ddilynwyd cyn cyflwyno Rhybuddion Cosb Benodedig. Cafodd yr holl brosesau yn ymwneud ag absenoldebau ysgol eu hamlygu mewn cyhoeddiadau ysgol i sicrhau bod pob rhiant yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac o ganlyniadau peidio anfon eu plentyn i'r ysgol.

Cafodd system rheoli absenoldebau ysgol ei ddatganoli i bob ysgol unigol. Fodd bynnag, bu'r Cyngor yn monitro absenoldebau yn rheolaidd ac, fel rhan o broses Grŵp Monitro Safon Ysgolion, cafodd penaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr eu dal yn atebol am berfformiad eu hysgolion mewn perthynas â rheoli absenoldebau a chyrhaeddiad academaidd. Bu'r Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg hefyd yn monitro cyfraddau absenoldeb ysgol yn fisol, gan ystyried ffactor Prydau Ysgol am Ddim a Phlant sy'n Derbyng Gofal.

Dywedodd yr Aelodau eu bod wedi gofyn am adroddiad ar sail y wybodaeth ystadegol a datganiad i'r wasg y gwelsant beth amser yn ôl, gan eu bod yn pryderu na fyddai lefelau tlodi yn y sir yn gwella os yw disgyblion yn absennol o'r ysgol am gyfnodau hir ar y tro. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd y swyddogion:

- Ni chafodd cofnodion eu cadw ar lefel sirol o ran 'absenoldebau awdurdodedig', gan fod absenoldebau o'r fath wedi eu caniatáu gan benaethiaid;
- roedd penaethiaid wedi bod yn awyddus i'r Cyngor gymhwyso Hysbysiadau Cosb Benodedig yn gyson ar draws y sir. Ers y dyddiad y cafodd hyn ei roi

ar waith yn llym, bu cynnydd sylweddol yn y nifer o lythyrau rhybudd/Hysbysiadau Cosb Benodedig a gyhoeddwyd. Fodd bynnag, roedd disgwyl i hyn ddisgyn ar ôl i rieni sylweddoli na fyddai'r Cyngor yn oedi wrth orfodi'r polisi;

- bu'r Sir yn monitro ac yn gwirio'n rheolaidd p'un a oedd ysgolion yn cymhwyso'r holl bolisiau a gweithdrefnau. Roedd presenoldeb yn yr ysgol yn allweddol gan ei fod yn effeithio ar ganlyniadau bywyd ar gyfer y disgyblion;
- cafodd diffyg presenoldeb rheolaidd heb awdurdod yn yr ysgol ei archwilio'n fanwl i sefydlu'r rhesymau sylfaenol dros absenoldeb plentyn. Mewn achosion o'r fath, byddai'r Cyngor wedyn yn cynnig cymorth priodol a pherthnasol i'r plentyn a'r teulu i helpu i oresgyn unrhyw rwystrau, a'u hymgysylltu gyda'r system addysg;
- ar gyfer y disgyblion mwyaf heriol, roedd cyfleoedd ar gael drwy Brosiect TRAC. Bu hwn yn Brosiect llwyddiannus iawn yn Sir Ddinbych ac wedi helpu'r sir i symud o safle 19 i safle 16 yng Nghymru. Ymgysylltu disgyblion â'r Prosiect oedd prif gyfrifoldeb yr ysgol, a chawsant eu cefnogi gan y Tîm GCA Corfforaethol;
- mae nifer o ysgolion bellach yn cyflogi eu Swyddogion Presenoldeb eu hunain;
- o dan Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru, roedd gan benaethiaid ddisgresiwn i ganiatáu hyd at 10 diwrnod o absenoldeb awdurdodedig. Bu apêl yn yr Uchel Lys yn erbyn Cyngor Ynys Wyth yn ddiweddar, a oedd wedi rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig i Riant am gymryd ei ferch allan o'r ysgol ar wyliau er gwaethaf cais am 'absenoldeb awdurdodedig' yn cael ei wrthod. Cafodd yr apêl ei chadarnhau ac ers hynny, mae timau cyfreithiol ar draws y DU wedi bod yn edrych ar y dyfarniad i benderfynu a ddylid tynhau polisiau a gweithdrefnau;
- er gwaethaf y ffaith bod nifer o rieni wedi bod yn amharod ar y dechrau i swyddogion eu ffonio am bresenoldeb eu plentyn yn yr ysgol, yn y mwyafrif o achosion yn ôl casgliad y sgwrs, roeddent yn deall rhesymau a phryderon y Cyngor;
- roedd perfformiad yn gwella yn yr ardal hon, a byddai'n parhau i gael ei fonitro gyda'r nod o wella perfformiad hyd yn oed ymhellach er lles yr holl ddisgyblion; a
- tra bod y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan yn berthnasol i bob awdurdod addysg yng Nghymru, ni chafodd y polisiau a'r gweithdrefnau yn y maes hwn eu cymhwyso'n gyson ar draws y wlad.

Cyn dod i gasgliad am y drafodaeth, cytunodd y swyddogion i ddosbarthu gwybodaeth i aelodau am absenoldebau anawdurdodedig a data prydau ysgol am ddim ym mhob un o ysgolion y Sir. Cododd yr Aelodau bryderon mewn perthynas

â'r pwynt olaf uchod a gofynnwyd am gael nodi eu pryderon mewn perthynas â hyn, gan eu bod yn teimlo y gallai effeithio ar safle Sir Ddinbych yn y tabl perfformiad. Ar ôl adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor:

PENDERFYNWYD: yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (i) *cadarnhau'r polisiâu a'r strategaethau a ddefnyddir i wella presenoldeb disgyblion yn ysgolion Sir Ddinbych;*
- (ii) *nodir perfformiad gwell sydd wedi'i gyrraedd hyd yn hyn; a*
- (iii) *chofrestru eu pryderon nad yw pob awdurdod ar draws Cymru yn cymhwyso'r polisiâu a'r gweithdrefnau mewn perthynas ag absenoldebau anawdurdodedig mor llym â Sir Ddinbych.*

8 FFYRDD PERYGLUS AT YSGOLION

Cyflwynodd y Swyddog Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd a'r Peiriannydd Diogelwch ar y Ffyrdd yr adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn esbonio'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r llwybrau peryglus i'r ysgol. Gwnaethant hefyd amlinellu'r broses asesu a ddilynwyd, yn unol â chanllawiau statudol, wrth asesu diogelwch llwybr cerdded i'r ysgol. Byddai unrhyw newidiadau i lif neu faint traffig yn achosi adolygiad yn awtomatig. Mae hyn wedi digwydd yn Rhuddlan yn ddiweddar, ac o ganlyniad wedi arwain at osod ynys draffig i gynorthwyo disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol groesi'r briffordd yn ddiogel.

Er y byddai cyflwyno mesurau gostegu traffig yn cynorthwyo i arafu traffig, ni fyddai byth yn atal damweiniau, gan fod y rhan fwyaf o ddamweiniau'n wall dynol ar ran un parti. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd y swyddogion:

- byddai cost unrhyw addasiadau i'r briffordd i sicrhau diogelwch y disgyblion yn destun trafodaethau cyllidebol rhwng gwasanaethau perthnasol e.e. addysg a phriffyrdd. Gellid trosglwyddo arian o gyllideb cludiant yr ysgol i'r gyllideb priffyrdd, tuag at gost addasiadau ac ati pe bai angen;
- er y cydnabuwyd bod rhai ffyrdd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn cael eu hystyried yn beryglus i'r plant gerdded i'r ysgol, cafwyd manteision ychwanegol ar y llwybr ysgol yn y llefydd oedd yn ddiogel iddynt gerdded. Roedd yn cyfrannu at iechyd a lles y disgybl gan fod ymarfer corff yn cael ei gydnabod fel ffordd o leihau gordewdra;
- pe ceid hysbysiad o newid mewn maint neu lif traffig ar unrhyw lwybrau ysgol, neu pe ceid cais am gludiant ysgol oherwydd bod y llwybr cerdded wedi dod yn beryglus, byddai asesiad llwybr peryglus yn cael ei gynnal. Anogwyd cynghorwyr i roi gwybod i swyddogion pe bai unrhyw newidiadau i faint neu lif yn eu wardiau;

- pe bai aelodau yn dymuno hynny, gallai swyddogion roi gwybod i Grwpiau Ardal Aelodau yn flynyddol o lwybrau i'w hadolygu o fewn eu hardaloedd, a chynnwys cynghorwyr yn y broses ymgynghori. Cytunodd yr Aelodau â'r awgrym hwn a chytunodd y swyddogion i fabwysiadu'r dull hwn o hyn ymlaen;
- mewn perthynas â llwybrau sy'n amodol ar drefn torri glaswellt bioamrywiol, gweithredodd y swyddogion yn ofalus wrth asesu llwybrau a rhoi blaenoriaeth i fywyd dynol dros fywyd gwylt. Fodd bynnag, gwnaethant gydnabod y gellid seilio'r asesiad yn unig ar y dystiolaeth weledol a oedd ar gael ar yr adeg y cafodd ei wneud. Os oedd tyfiannau ar ymylon yn peri perygl, byddai Tîm Strydwedd yn delio gyda hyn fel mater o frys, ac os mai tîrfeddianwyr oedd yn gyfrifol am wrychoedd ac ati, byddent yn gofyn iddynt eu torri ar sail diogelwch. Os na fyddai'r perchennog / unigolyn cyfrifol yn ymateb i'r cais, byddai Tîm Strydwedd yn torri'r tyfiant am resymau diogelwch, ac yn adennill y costau yn ddiweddarach gan yr unigolyn cyfrifol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at nifer o enghreifftiau ar draws y sir lle bu help swyddogion i leihau cyflymder traffig neu gyflwyno mesurau gostegu traffig, yn enwedig o amgylch ysgolion, yn amhrisiadwy. Roedd gwaith yn parhau yn yr ardaloedd hynny gyda'r bwriad o gael swyddogion gorfodi i orfodi'r mesurau mewn ardaloedd yr ymddengys bod rhai defnyddwyr ffyrdd yn diystyru'r cyfyngiadau.

Cyn diwedd y drafodaeth, gofynnodd y Pwyllgor i swyddogion Diogelwch y Ffyrdd e-bostio pob cynghorydd sir sydd â llwybrau nad ydynt yn beryglus yn eu wardiau, gan ofyn iddynt roi gwybod i swyddogion yn syth os dônt yn ymwybodol o lwybr cerdded i'r ysgol nad yw'n un diogel mwyach, er mwyn galluogi swyddogion i'w asesu cyn gynted ag y bo modd. Dylid gofyn i Gynghorwyr hefyd hysbysu swyddogion Gwasanaethau'r Amgylchedd a Phriffyrdd ar unwaith os byddant yn dod yn ymwybodol o lystyfiant yn amharu ar welededd arwyddion ffyrdd yn eu hardal.

Penderfynodd y Pwyllgor:

yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (i) *cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r dull y mae Cyngor Sir Ddinbych yn cymhwyso canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru o ran asesu risg llwybrau cerdded i ysgolion;*
- (ii) *argymhell bod llwybrau ysgol o fewn ardaloedd sydd angen amserlenni torri gwair bioamrywiaeth, ac nad ydynt wedi cael eu hasesu o fewn y 12 mis diwethaf, yn cael eu hasesu ar y cyfle cyntaf posibl;*
- (iii) *bod holl Grwpiau Ardal Yr Aelodau yn cael eu hysbysu ac yr ymgynghorir â hwy yn flynyddol ar y llwybrau i'w hadolygu yn eu hardal; a*
- (iv) *chefnogi'r cynnig i gynnal adolygiadau cyfnodol o lwybrau cerdded o'r cartref i'r ysgol bob pum mlynedd, oni bai yr adroddir am newidiadau sylweddol i faint neu lif traffig, neu y ceir ceisiadau am gynnal adolygiad.*

9 RHAGLAN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (SC), a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol ac oedd yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o 'ffurflen gynnig Aelodau' wedi ei chynnwys yn Atodiad 2. Gofynnodd y Cydlynnydd Archwilio bod unrhyw gynigion yn cael eu cyflwyno iddi hi. Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o'r penderfyniadau Pwyllgor diweddar ac a oedd yn hysbysu'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd gyda'u gweithrediad, wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.

Ystyriodd y Pwyllgor fersiwn ddrafft o'i Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd ar gyfraniad yr Adran Gwaith a Phensiynau a PeoplePlus i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 27 Hydref.

Gofynnodd y Pwyllgor fod yr Arweinydd a'r Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol, Gofal Oedolion a Gwasanaethau Plant yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf.

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Gan fod y cyfarfod yn dilyn gwyliau mis Awst, ni fu unrhyw gyfarfodydd i Aelodau roi adborth.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55am.

.